I S - D D E D D F W R I A E T H C Y M R U

## LlC25-70

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cilfan i'r de o Gylchfan Cyfarthfa, Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *13 Hydref 2025* |
| *Yn dod i rym* | *20 Hydref 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd, neu o ddifrod difrifol i'r ffordd, na ellir eu priodoli i waith, ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cilfan i'r de o Gylchfan Cyfarthfa, Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Hydref 2025.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

W E L S H S U B O R D I N A T E L E G I S L A T I O N

## WG25-70

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A470 Trunk Road (Lay-by south of Cyfarthfa Roundabout, Merthyr Tydfil) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2025

| | |
|---|---|
| *Made* | *13 October 2025* |
| *Coming into force* | *20 October 2025* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of the likelihood of danger to the public, or of serious damage to the road, not attributable to works, on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A470 Trunk Road (Lay-by south of Cyfarthfa Roundabout, Merthyr Tydfil) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2025 and this Order comes into force on 20 October 2025.

### Interpretation

**2.** In this Order—

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu gan gontractwr y cytunwyd arno wrth osod neu gynnal a chadw cyfarpar priffyrdd;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gilfan sy’n gyfagos i gerbytffordd tua’r de y gefnffordd rhwng Cylchfan Cyfarthfa a Chylchfan Rhyd-y-car, Merthyr Tudful.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 13 Hydref 2025

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or by an agreed contractor in the setting-up or maintenance of highway apparatus;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A470 Cardiff to Llangurig trunk road.

**Prohibition**

**3.** No person may drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the lay-by adjacent to the southbound carriageway of the trunk road between Cyfarthfa Roundabout and Rhyd-y-car Roundabout, Merthyr Tydfil.

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**5.** The maximum duration for this Order is 6 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 13 October 2025

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government